**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru**

**30 Mehefin 2010**

---

## Cyflwyniad

Mae sicrhau bod gwasanaeth o'r radd flaenaf yn cael ei ddatblygu i bob defnyddiwr cadair olwyn yng Nghymru yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth y Cynulliad. Rwyf yn croesawu'r adroddiad hwn a'r cyfle i nodi'r hyn rydym yn ei wneud i ddarparu gwasanaeth cadair olwyn effeithlon ac effeithiol ledled Cymru.

Mae'r argymhellion sydd yn yr adroddiad yn cyfateb i'r cyfeiriad rwy'n mynd iddo ar hyn o bryd, ac rwy'n falch o fedru eu derbyn.

Rhoddais gychwyn y llynedd ar adolygiad i wasanaethau cadair olwyn a nododd nifer o ganfyddiadau allweddol. Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Prosiect o dan gadeiryddiaeth Sue Kent, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i'm cynghori ar y camau y dylid eu cymryd i roi sylw i'r pryderon hyn.

Mae cylch gorchwyl y Bwrdd Prosiect fel a ganlyn:

- Adolygu prosesau rheoli'r rhestri aros cyfredol. Y nod yw sicrhau bod y prosesau cyfredol yn effeithlon er mwyn gallu targedu unrhyw fuddsoddiad yn y gwasanaeth cadair olwyn yn y dyfodol fel bod modd cael mwy o ostyngiad yn yr amseroedd aros.
- Adolygu prosesau rheoli'r rhestri aros am gadair olwyn yn unol â'r canllawiau Atgyfeiriad i Driniaeth.
- Adolygu model a manyleb y gwasanaeth ystum a symudedd.
- Datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn i yrru agenda manyleb a gwella perfformiad y gwasanaeth yn ei blaen.
- Adolygu'r model mwyaf priodol ar gyfer trefnu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Datblygu rhaglen addysg i alluogi defnyddwyr, gofalwyr ac ymarferwyr i ddeall gwerth partneriaeth go-iawn wrth gytuno ar sut y dylid ateb anghenion defnyddwyr y gwasanaethau.
- Adolygu sut caiff cadeiriau eu comisiynu a'u darparu at ddibenion benthyca tymor byr.
- Sicrhau bod cysylltiadau cyfathrebu cadarn â'r gwasanaeth ac â phob rhanddeiliad allweddol yn cael eu sefydlu a'u cynnal.

Dewiswyd aelodau'r Bwrdd Prosiect am eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u hamgyffred o wasanaethau cadair olwyn. Mae'r Bwrdd yn cael cymorth Grŵp Cyfeirio ehangach sydd â chynrychiolwyr o grwpiau sy'n cynnwys cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau cynghori proffesiynol, y Trydydd Sector, a grwpiau cleifion a defnyddwyr.

Mae’r adolygiad, gan y Bwrdd Prosiect, ar fin dod i ben a bydd y Cadeirydd yn adrodd i mi ym mis Awst 2010. Ar ôl i’r adolygiad hwn ddod i ben byddaf yn gofyn am weithredu’r gwelliant i’r gwasanaeth ar frys fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

**Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol**

Rwyf wedi nodi isod fy ymatebion i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Argymhelliad 1
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru’n sicrhau bod manyleb gwasanaeth lawn, genedlaethol yn cael ei pharatoi, gan gynnwys manylion am ddull y gwasanaeth o gydweithio â sefydliadau eraill ac unigolion; a gwybodaeth am dargedau perfformiad a systemau monitro.

**Ymateb: Derbyn**

Mae’r Bwrdd Prosiect y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad yn dwyn hyn yn ei flaen. Mae datblygu manyleb gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol cadarn, i gefnogi gwelliant i’r perfformiad, wedi’u nodi yn y Cylch Gorchwyl.

Argymhelliad 2
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun strategol, i roi cyfeiriad i’r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Dylid gwneud hyn ar y cyd â’r darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr, rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Bwrdd Prosiect yn fy nghynghori ar y blaenoriaethau strategol er mwyn datblygu a chyflenwi’r gwasanaeth. Mae’r Bwrdd yn cael cymorth Grŵp Cyfeirio ehangach y mae ei aelodau’n cynnwys cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau cynghori proffesiynol, y trydydd sector, a grwpiau cleifion a defnyddwyr.

Argymhelliad 3
Rydym yn argymell y dylai’r cynllun strategol roi sylw i’r angen i integreiddio’r gwasanaeth yn well â gwasanaethau cymunedau a gwasanaethau eraill y GIG, ac â’r gwasanaethau cymdeithasol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae’r Bwrdd Prosiect wrthi’n ystyried sut gellir cael gwell integreiddio.

Argymhelliad 4
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y trefniadau am wasanaeth cadeiriau olwyn wedi'i ailstrwythuro'n cynnwys cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried trefniadau'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar sicrhau cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir.

Argymhelliad 5
Rydym yn argymell y dylai mesurau perfformiad newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr, gan ystyried eu hanghenion ehangach.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Bwrdd Prosiect yn datblygu dangosyddion perfformiad newydd, a byddant yn adlewyrchu pob agwedd ar gyflenwi'r gwasanaeth, gan gynnwys y canlyniadau.

Argymhelliad 6
Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog barhau i adolygu'r mesurau perfformiad a'r targedau a gynllunnir, ac y dylai gyflwyno sancsiynau am ddiffyg cydymffurfio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn datblygu mesurau perfformiad. Bydd y rhain yn nodi fy nisgwyliadau o ran yr hyn y gall defnyddwyr gwasanaethau ddisgwyl ei dderbyn. Bydd y mesurau perfformiad wedi'u cynnwys yn y fanyleb gwasanaeth, a bydd Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu galw i gyfrif am gyflenwi'r safonau perfformiad gofynnol.

Argymhelliad 7
Rydym yn argymell y dylai'r fanyleb gwasanaeth gynnwys cynllun gweithredu, sy'n cynnwys targedau a cherrig milltir, i fodloni safonau'r NSF Plant ar gadeiriau olwyn.

**Ymateb: Derbyn**

Ar ôl i'r Bwrdd Prosiect gytuno ar fanyleb gwasanaeth, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu sy'n nodi sut caiff cyfarpar ei gyflenwi i blant mewn da bryd, yn unol â'u hanghenion a'u gofynion. Bydd hyn yn cynnwys ymysg meysydd eraill, adolygu arweiniad cyfredol gweithgynhyrchwyr o ran amser.

Argymhelliad 8
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y gwasanaeth yn paratoi strategaeth gyfathrebu, i amlinellu sut y bydd yn gwella cyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid. Dylid llunio'r strategaeth gyfathrebu hon a'i chyflwyno fel mater o frys.

**Ymateb: Derbyn**

Mae datblygu strategaeth gyfathrebu'n cael ei ddwyn ymlaen fel un o'r ffrydiau gwaith sy'n adrodd i'r Bwrdd Prosiect.

Argymhelliad 9
Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth gyfathrebu gynnwys mesurau i ddarparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig am gynnydd o fewn y system.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Strategaeth Gyfathrebu'n cynnwys mesurau o'r fath.

Argymhelliad 10
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio, gyda'r gwasanaeth, mudiadau gwirfoddol ac elusennau, opsiynau i ddarparu'r datrysiadau dros dro gorau posibl i ddefnyddwyr a fydd yn aros am gyfnodau arwyddocaol am gyflenwi neu gynnal a chadw cadair.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried y trefniadau ar gyfer benthyca tymor byr, a bydd yn diffinio'r gofynion ac yn nodi'r opsiynau er mwyn gwella'r gwasanaeth ledled Cymru.

Argymhelliad 11
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o anghenion adnoddau hirdymor y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth benodol i'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cynnal gwell amseroedd aros; darparu adolygiadau rheolaidd i rai defnyddwyr; a chlirio ôl-groniad y rhestr aros yng Ngogledd Cymru. Yna, dylai'r Llywodraeth roi datganiad clir sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu bodloni'r gofynion hyn o ran adnoddau yn y cylch cyllideb presennol.

**Ymateb:  Derbyn**

Byddaf yn nodi beth yw fy mwriad i'r gwasanaeth cadair olwyn ar ôl ystyried cyngor y Bwrdd Prosiect.

Argymhelliad 12
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i gydweithio rhwng ALAS a sefydliadau, elusennau, therapyddion cymunedol ac eraill, ac y dylai hyn ffurfio rhan ganolog o gynllun strategol y gwasanaeth.

**Ymateb:  Derbyn**

Mae datblygu cydweithio wrth graidd y strategaeth. Mae'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd eisoes ag elusennau, megis Whizz Kids. Bydd y Bwrdd Prosiect yn trafod, â'r Grŵp Cyfeirio, sut y gellir nodi a mynd ar ôl cyfleoedd pellach.

Argymhelliad 13
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau y gwneir argymhellion i symleiddio'r broses atgyfeirio, o bosibl drwy ddatblygu adnoddau ar-lein.

**Ymateb: Derbyn**

Mae datblygu trefniadau atgyfeirio, gan gynnwys protocolau a phrosesau, yn rhan allweddol o waith y Bwrdd Prosiect. Rwy'n disgwyl y bydd eu hadroddiad yn nodi ffyrdd y gellir gwella trefniadau atgyfeirio ymhellach.

Argymhelliad 14
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y ceir digon o therapyddion cymunedol sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau Lefel 3.

**Ymateb:  Derbyn.**

Bydd egluro'r fanyleb gwasanaeth a datblygu safonau perfformiad yn galluogi'r GIG i nodi'r anghenion staffio i gyflenwi'r gwasanaeth i fodloni fy ngofynion. Mater i'r GIG fydd hi wedyn i sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi, gan gynnwys therapyddion cymunedol, yn eu lle i gynnal asesiadau a rhoi'r gwasanaeth i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Argymhelliad 15
Rydym yn argymell, fel mater o frys, y dylai Llywodraeth Cymru egluro a chyhoeddi'r polisïau a'r trefniadau ar gyfer cyllido ar y cyd â sefydliadau ac unigolion.

**Ymateb:  Cytuno**

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth ffurfiol rhwng y GIG ac Awdurdodau Lleol. Bydd y Bwrdd Prosiect yn sicrhau bod prosesau ymgysylltu a chyfranogi'n cael eu mireinio yn y trefniadau cyllido ar y cyd gan sicrhau bod y broses hon yn dryloyw. Mae trefniadau lleol yn cael eu datblygu, er enghraifft gyda Whizz Kids, sy'n dangos yr egwyddor hon.

Argymhelliad 16
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n egluro ac yn cyhoeddi ei pholisi a'i threfniadau ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a brynir gan unigolion.

**Ymateb: Derbyn**

Y polisi fel y mae ar hyn o bryd yw bod y cyfrifoldeb am gynnal a chadw ac atgyweirio'r cyfarpar a brynir gan unigolion yn aros gyda'r unigolyn hwnnw.

Argymhelliad 17
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach y posibilrwydd o gyfuno cyllidebau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig cyllidebau addysg, yng nghyswllt darparu cyfarpar i ddefnyddwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried gan y Tîm Prosiect, gan gysylltu â swyddogion eraill.

Argymhelliad 18
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau benthyca cadeiriau olwyn tymor byr, nad ydynt yn cael eu darparu gan ALAS, i sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Bwrdd Prosiect yn cynnal adolygiad o gomisiynu a darparu cadeiriau olwyn i'w benthyca am dymor byr.

Argymhelliad 19
Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y ceir cydweithio agosach rhwng ALAS a'r sawl sy'n darparu cadeiriau olwyn am fenthyciadau tymor byr, yn enwedig y Groes Goch Brydeinig.

**Ymateb: Derbyn**

Rhoddir sylw i hyn drwy'r ffrwd waith i wella'r broses benthyca cadeiriau olwyn tymor byr y cyfeirir ati uchod.

Argymhelliad 20
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw ac atgyweirio ALAC Caerdydd ac ALAC Wrecsam yn parhau i gael eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofynnol.

**Ymateb:  Derbyn**

Mae Dangosyddion Perfformiad ac Ansawdd Allweddol yn cael eu datblygu i gefnogi monitro'r gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio'n barhaus a sicrhau bod y safonau y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnal.

Argymhelliad 21
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ALAS yn ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid am eu hanghenion cyn cynnal unrhyw broses dendro yn y dyfodol ar gyfer contractau atgyweirio a chynnal a chadw.

**Ymateb:  Derbyn.**

Bydd ALAS yn ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid yn rhan o unrhyw broses dendro yn y dyfodol ar gyfer contractau cynnal a chadw ac atgyweirio.

Argymhelliad 22
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cyflenwir adolygiadau rheolaidd i ddefnyddwyr, yn enwedig i blant a defnyddwyr eraill â chyflyrau sy'n newid.

**Ymateb: Derbyn.**

Bydd y fanyleb gwasanaeth a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn pennu ac yn monitro'r gofynion adolygu.

Argymhelliad 23
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ALAS yn archwilio cyfleoedd i gydweithio ag elusennau i ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Byddaf yn sicrhau bod opsiynau i gydweithio'n cael eu harchwilio'n llawn.

**Edwina Hart, Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**